



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for **Wales**

Cymraeg yn ein gweithle

Wedi'i ddiweddaru: Mai 2024

Dyddiad diweddariad nesaf: Mai 2025

Cyflwyniad

Mae'r Gymraeg yn iaith fyw yn ein sefydliad. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu'r canlynol:

- Mae'r tîm yn defnyddio'r iaith bob dydd, ym mhob agwedd ar ein gwaith;
- Nid dim ond i gyfleu negeseuon rydyn ni'n defnyddio'r Gymraeg; mae'n ddolen gyswllt rhyngon ni a'n gilydd, ac â'r rhai rydyn ni yma i'w cynrychioli;
- Ymhlith aelodau'r Tîm sydd ddim yn siarad Cymraeg mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth at ddysgu a defnyddio'r iaith;
- Mae pawb yn cydnabod cyfraniad yr iaith i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru;
- Rydyn ni'n cyflawni, ac mewn rhai achosion yn rhagori ar ein rhwymedigaethau statudol o dan y safonau sydd wedi'u hamlinellu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- Mae perchnogaeth ar ein dyheadau o ran cydymffurfio, hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg ar lefel y Tîm Rheoli; ac
- Rydyn ni'n monitro ein gweithgareddau trwy gyfarfodydd y Tîm Rheoli, yn derbyn cyfrifoldeb ar y cyd, ac yn cytuno ar gamau rhagweithiol i gefnogi a chynyddu defnydd o'r iaith yn ein gweithle.

2. Cynllunio ar gyfer sgiliau Cymraeg yn y gweithle

2.1 Monitro a defnyddio gwybodaeth

Rydyn ni'n cadw'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sgiliau Cymraeg y staff trwy gynnwys adran ynghylch medrusrwydd sgiliau iaith ar ffurflen monitro cydraddoldeb flynyddol. Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma i ddatblygu dull dysgu ar gyfer sgiliau iaith a darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg trwy ein Hadroddiad Blynyddol.

(Safon 145)

Rydyn ni'n cadw gwybodaeth am nifer y swyddi gwag a gafodd eu hysbysebu a'r ieithoedd roedd ymgeiswyr yn eu siarad, a'r ymgeiswyr llwyddiannus, ar ffurf gwybodaeth monitro cydraddoldeb. Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma i nodi gwelliannau i'n prosesau recriwtio a sut rydyn ni'n targedu cymunedau a sgiliau priodol.

Mae'r gweithgareddau hyn yn ein galluogi i ddangos ein bod ni'n cydymffurfio â Safonau 123-131.



Comisiynydd
Plant **Cymru**

Children's
Commissioner
for **Wales**

2.2 Asesu'r angen am yr iaith

Yn unol â'r canllawiau a gafwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, rydyn ni'n defnyddio templed asesu anghenion wrth recriwtio i swyddi gwag er mwyn sicrhau bod gennym niferoedd digonol o staff sydd â'r sgiliau Cymraeg priodol, yn y swyddi cywir, i gyflwyno gwasanaethau cytbwys yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r gweithgareddau hyn yn ein galluogi i ddangos ein bod yn cydymffurfio â Safon 132.

Mae'r asesiad anghenion yn sicrhau nad yw pennu sgiliau Cymraeg fel gofyniad hanfodol neu ddymunol yn cael ei ddiffinio gan y gyfraith fel rhywbeth sy'n gwahaniaethu yn erbyn rhai pobl, a bod modd ei gyfiawnhau'n wrthrychol fel 'dull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon'.

Mae Atodiad A yn manylu ar sut rydyn ni'n categoreiddio ac yn disgrifio sgiliau Cymraeg ar gyfer yr asesiad anghenion.

2.3 Hysbysebu swyddi gwag (Safonau 133 -135)

Bydd yr holl swyddi gwag rydyn ni'n eu hysbysebu yn nodi'n glir y lefel o sgiliau iaith sy'n ofynnol er mwyn gallu perfformio'n fedrus yn y rôl; mae hynny'n cynnwys rolau lle nad yw'r Gymraeg yn hanfodol nac yn ddymunol. Mae'r holl swyddi rydyn ni'n eu hysbysebu yn gofyn bod ymgeiswyr yn arddangos sgiliau Cymraeg sydd o leiaf ar lefel "Cwrteisi" sylfaenol, neu eu bod yn cyrraedd y safon honno o fewn cyfnod penodol o amser. Mae disgwyl i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r sgiliau hynny adeg eu penodi, neu gyfranogi mewn dysgu Cymraeg o fewn blwyddyn gyntaf eu penodiad (cyhyd â bod darpariaeth ar gael).

Yn achos rolau sy'n cael eu hasesu fel rhai 'lle nad yw'r Gymraeg yn ofynnol', bydd yr hysbyseb yn cynnwys datganiad safonol yn egluro bod ymrwymiad i Gymru, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn ofynnol i gyflawni'r rôl.

Beth bynnag yw'r gofynion o ran sgiliau iaith, mae pob swydd rydyn ni'n ei hysbysebu'n allanol yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg a'i hysbysebu ar o leiaf un platfform recriwtio Cymraeg. Mae'r holl ddogfennau recriwtio a phecynnau gwybodaeth yn cael eu cyhoeddi yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y ffurflenni cais yn rhoi cyfle i ymgeiswyr nodi lefel eu sgiliau Cymraeg a chyfle i ddewis yr iaith maen nhw'n ei ffafrio ar gyfer cyfweiliadau.

2.4 Cyfweld a'r broses o asesu sgiliau ieithyddol

Caiff sgiliau Cymraeg a/neu ofynion o ran y Gymraeg eu hasesu yn y broses gyfweld ar gyfer pob swydd sy'n cael ei hysbysebu'n allanol.

Caiff yr asesiadau eu llunio yn ôl gofynion y rôl. Gall hynny gynnwys ymarferiad darllen a/neu gyfieithu e-bost i'r Gymraeg, cyfansoddi ymateb i e-bost yn Gymraeg, ateb cwestiynau yn Gymraeg, neu ateb galwad ffôn ffug a delio â'r ymholiad yn Gymraeg.



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

Lle mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol neu lle nad ydynt yn ofynnol ar gyfer y rôl, byddwn ni'n holi ymgeiswyr am eu parodrwydd i ddysgu Cymraeg a'u hymrwymiad i Gymru a'r Gymraeg.

Lle bynnag y bo modd, byddwn ni'n dewis aelodau panel cyfweld dwyieithog o blith ein tîm o staff. Rydyn ni'n cydnabod y farn y gallai cyfieithu ar y pryd roi ymgeisydd sy'n dewis cael cyfweiliad yn Gymraeg o dan anfantais, a byddwn yn gwneud ein gorau i gael hyd i ffyrdd amgen o gefnogi'r dewis hwnnw. Er enghraifft, gallwn ddefnyddio aelodau o'n panel ymgynghorol oedolion neu o swyddfeydd eraill y Comisiynydd yn aelodau panel dwyieithog allanol os yw hynny'n briodol.

3. Trin staff â pharch mewn perthynas â'u dewis iaith (Safonau 108 i 115)

Gall ymgeiswyr gyflwyno'u cais yn Gymraeg, ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol nag ymgeisydd sy'n cyflwyno'u cais yn Saesneg. Rydyn ni'n nodi'r ymrwymiad hwn ar bob hysbyseb recriwtio allanol.

Byddwn ni'n gohebu yn Gymraeg ag Ymgeiswyr sy'n cyflwyno eu cais yn Gymraeg.

Wedyn byddwn ni'n gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus a fyddai'n well ganddyn nhw dderbyn eu dogfennau contract cyflogaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal pob agwedd ar ein polisïau cwynion, tanberfformiad, achwyniadau a disgyblu yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl dewis y cyflogai unigol, ac rydyn ni'n gwneud yr ymrwymiad hwn yn glir yn ein polisïau cyflogaeth perthnasol.

Lle bo modd, bydd Rheolwyr Llinell dwyieithog yn cynnig ac yn cynnal sesiynau goruchwyllo ac arfarniadau yn Gymraeg.

Mae ein deunyddiau sefydlu ar gyfer staff newydd yn cynnwys cyflwyniad i Safonau'r Gymraeg a'n cyfrifoldebau ninnau, fel sefydliad sy'n cael ei gwmpasu gan y safonau. Mae neges bwysig hefyd am ein hymrwymiad i Gymru a'r Gymraeg mewn disgrifiad o'r normau diwylliannol ar gyfer dechreuwyr newydd. Mae'r ddogfen hon yn annog staff newydd i siarad yn Gymraeg â chydweithwyr, neu os ydyn nhw'n ddysgwyr, i ymarfer eu Cymraeg yn y gweithle.

4. Rhoi gofynion o ran sgiliau Cymraeg ar waith yn y gweithle

Rydyn ni eisiau i'n sefydliad fod yn sefydliad agored, cynhwysol ac amrywiol; yn sefydliad sy'n gallu cyfathrebu â phoblogaeth amrywiol Cymru, a chysylltu â nhw. Un yn unig o'r ieithoedd rydyn ni'n mynd ati'n weithredol i'w defnyddio a'u hyrwyddo yw'r Gymraeg. Rydyn ni'n ymdrechu i sicrhau bod ein sefydliad yn cynrychioli diwylliant ac amrywiaeth Cymru. Byddwn ni'n cymryd pob cam posibl i gyfyngu ar unrhyw rwystrau i gyfathrebu a rhwystrau i gyflogaeth.



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

Mae'r Comisiynydd Plant cyfredol, Rocio Cifuentes, yn rhugl yn Sbaeneg yn ogystal â Saesneg. Mae wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i ddiogelu a hybu'r Gymraeg, a gwella ei sgiliau Cymraeg ei hun yn ystod ei chyfnod yn y swydd. Bu'n llwyddiannus yn yr arholiad Mynediad ym mis Mehefin 2023, ac mae wedi bod yn astudio ar gyfer yr arholiad Sylfaen eleni, gyda'r bwriad o'i sefyll ym mis Mehefin 2024.

Ein nod yw recriwtio'r bobl orau, beth bynnag yw eu cefndir, a chaiff pob aelod newydd o staff eu croesawu, eu hannog a'u cefnogi i wella'u sgiliau Cymraeg.

Mae pob swydd rydyn ni'n ei hysbysebu yn gofyn bod ymgeiswyr yn arddangos o leiaf lefel sylfaenol "Cwrteisi" o sgiliau Cymraeg o fewn amserlen gytunedig.

Mae disgwyl i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r sgiliau hynny adeg eu penodi, neu fynd ati i ddysgu Cymraeg yn ystod blwyddyn gyntaf eu penodiad (cyhyd â bod darpariaeth ar gael). Y bwriad yw bod hyn yn ddechrau proses o welliant parhaus o ran sgiliau Cymraeg, gyda chefnogaeth hyfforddiant a chyfleoedd eraill i ddysgu ac ymarfer yn y gweithle. Caiff dysgu a datblygu yn Gymraeg, ynghyd â phynciau eraill, ei fonitro trwy ein proses Perfformio a Datblygu, sy'n cynnwys cyfarfodydd goruchwyllo misol ar gyfer yr holl staff, pennu amcanion, cynllunio dysgu ac arfarniadau diwedd blwyddyn.

Rydyn ni'n gwneud pob ymgeisydd yn ymwybodol o ethos ddwyieithog y sefydliad, ynghyd â'r gofynion o ran iaith, cyn iddyn nhw gynnig am swyddi; trwy sicrhau bod y dogfennau canllaw recriwtio yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol. Ym mhob achos (ac eithrio lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol), byddwn ni'n sicrhau bod ymgeiswyr yn deall, os na allan nhw arddangos sgiliau adeg eu penodi, na fydd hynny'n rhwystro wrth ymgeisio am swydd.

5. Datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithle (Safonau 126 -127)

Mae sgiliau Cymraeg bob amser yn cael eu cydnabod fel angen busnes ar draws y sefydliad.

Rydyn ni'n cefnogi dewis arloesol, eang o gyfleoedd hyfforddi allanol.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol, a dim ond am gyfnod byr, y byddwn ni'n cyfyngu ar hyfforddiant. Rydyn ni'n sicrhau dull gweithredu hyblyg, y mae modd ei addasu ar gyfer yr holl staff o ran eu hanghenion hyfforddi unigol. Rydyn ni'n cydnabod y ffaith bod pobl yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol trwy gefnogi staff i gael mynediad at ystod o ddulliau dysgu, gan gynnwys dosbarthiadau wyneb yn wyneb, e-ddysgu, sgysiau grŵp anffurfiol, mentora a rhwydweithiau ar-lein. Mae'r gefnogaeth i staff yn cynnwys darparu cyllid rhesymol, ac mae'r meini prawf rydyn ni'n eu defnyddio i asesu cais am gyllid i'w canfod yn y Polisi Dysgu a Datblygu.

Rydyn ni'n annog yr holl staff i wneud Addewid Cymraeg fel rhan o'u proses flynyddol o arfarnu a phennu amcanion. Mae'r cynllun hwn yn annog pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg a phobl sydd â sgiliau rhugl i chwilio am fentor neu ddod yn fentor.



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

Mae ein haelodau staff dwyieithog yn annog dysgu anffurfiol mewn perthynas â sgiliau Cymraeg, trwy ddefnyddio Cymraeg achlysurol yn y gweithle.

6. Cyflwyno ein gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg (Safonau 1-83)

Rydyn ni'n falch o fod yn Gymry! Rydyn ni'n buddsoddi amser ac ymdrech aruthrol i sicrhau ein bod yn sefydliad hygyrch, ac mae hynny'n cynnwys gallu cynnig ein holl waith i blant a phobl ifanc a'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ymdrechion a wneir cyn, yn ystod ac ar ôl recriwtio yn ein galluogi i lunio sefydliad sy'n gallu cyflwyno gwasanaethau cytbwys i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg.

Mae Timau o fewn ein sefydliad sy'n cael cyswllt heb ei gynllunio â'r cyhoedd, megis ein Tîm Cyngor a Chymorth ar Hawliau Plant, yn cynnwys nifer uwch o siaradwyr dwyieithog na Thimau eraill lle mae modd cynllunio eu gwaith. Mae hynny'n ein galluogi i ymateb yn ddi-oed i ohebiaeth yn Gymraeg. (Safonau 1-7)

Mae technoleg, megis system ffôn ateb awtomatig sy'n cynnig dewis iaith i'r galwr o'r cychwyn, a gwefan ddwyieithog (Safonau 48 -53), yn ein galluogi i ymateb ar unwaith i alwadau ffôn Cymraeg i'n llinell gymorth Cyngori, a darparu gwybodaeth am ein gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. (Safonau 8 -22)

Mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn gwbl ddwyieithog, ac rydyn ni'n ei defnyddio ar draws pob platfform cyhoeddus, gan gynnwys ar ein gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac ar ein holl gyhoeddiadau. (Safonau 54-55 a 79) Rydyn ni hefyd yn hybu'r Gymraeg trwy arwyddion yn ein gweithle. (Safonau 137-139)

Rydyn ni'n cyfathrebu ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg trwy'r troedyn ar e-byst, negeseuon awtomatig a'r pennyn ar ddogfennau. Rydyn ni hefyd yn cynhyrchu adroddiadau, taflenni gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer cynulleidfaoedd allanol yn Gymraeg a Saesneg.

Rydyn ni'n gefnogwyr cryf i fenter [Cymraeg Clir](#), sy'n annog cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lunio fersiynau Cymraeg o ddogfennau cyhoeddus mewn Cymraeg syml, naturiol a chlir. Cwyn gyffredin yng Nghymru yw bod fersiynau Cymraeg y dogfennau hyn yn 'rhy anodd i'w darllen a'u defnyddio', a bod siaradwyr Cymraeg yn aml yn troi at y fersiynau Saesneg mewn anobaith.

Rydyn ni'n darparu hyfforddiant Cymraeg Clir i'n holl staff sy'n siarad Cymraeg ac yn cymhwyso egwyddorion y dull hwnnw yn yr holl ddeunyddiau dwyieithog rydyn ni'n eu cynhyrchu i'r cyhoedd.

Mae'r staff yn gallu defnyddio pecynnau meddalwedd, gan gynnwys Cysgair a Cysill ac maen nhw'n cael eu hannog i ddefnyddio platfformau mynediad di-dâl sy'n cynnwys BydTermCymru a gwasanaethau cyfieithu rydyn ni'n talu amdanynt.



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

Mae ein Canllaw Digwyddiadau yn sicrhau ein bod yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n holl ddigwyddiadau yn ddwyieithog ac yn cefnogi pobl i gymryd rhan yn Gymraeg mewn digwyddiadau (ar-lein ac wyneb yn wyneb) rydyn ni'n eu trefnu gyda phlant a phobl ifanc, sefydliadau eraill a gweithwyr proffesiynol neu'r cyhoedd. (Safonau 31 – 45)

Pan fyddwn ni'n datblygu neu'n adolygu prosiect newydd neu'n ffurfio ein cynlluniau gwaith strategol/blynyddol, mae ein proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cynnwys ystyried effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. (Safonau 91-93) Mae hynny'n golygu bod ystyriaeth weithredol ynghylch diogelu a hybu'r Gymraeg ar draws ein proses gynllunio gorfforaethol.



Atodiad A

1. Mae sgiliau Cymraeg yn HANFODOL ac mae eu hangen nhw wrth gychwyn yn y swydd

Mae sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol o ddiwrnod cyntaf eich cyflogaeth i gyflawni'r gwaith yn foddhaol, a does dim dull arall rhesymol o ddarparu'r gwasanaeth mewn modd boddhaol yn Gymraeg.

Yn y cyfweiliad, bydd ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gallu:

- Cynnal y rhan fwyaf o sgysiau cysylltiedig â gwaith
- Deall y rhan fwyaf o sgysiau cysylltiedig â gwaith
- Darllen y rhan fwyaf o sgysiau cysylltiedig â gwaith
- Paratoi deunydd ysgrifenedig arferol cysylltiedig â gwaith gyda gwirio

2. Mae sgiliau Cymraeg yn HANFODOL, ond mae modd eu gwella ar ôl y penodiad

Fel uchod, mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol i berfformio'n foddhaol yn y swydd. Mae'r **gwelliant rhuglder angenrheidiol** yn debygol o gael ei gyflawni o fewn y cyfnod prawf o 6 mis. Er bod angen sgiliau Cymraeg o'r diwrnod cyntaf i gyflawni'r gwaith yn foddhaol, ac rydyn ni'n chwilio am rywun sydd â'r sgiliau hynny, mae'r cyflogwr yn gallu gwneud trefniadau tymor byr hyd nes bod gallu ieithyddol y sawl sy'n cael ei benodi yn gwella i'r lefel sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd.

3. Mae sgiliau Cymraeg yn DDYMUNOL

Sgiliau Cymraeg yw un o'r sgiliau fydd yn helpu i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn foddhaol, ond dydyn nhw ddim yn hanfodol. Fodd bynnag, pan fydd y cyflenwad presennol o staff dwyieithog yn y Tîm yn gostwng yn is na throthwy penodol, bydd ymgeisydd dwyieithog yn dod â sgil gwerthfawr i'r gweithle a fydd yn cryfhau gallu'r tîm, neu'r sefydliad, i ddarparu gwasanaeth dwyieithog effeithiol ac effeithlon.

O dan amgylchiadau o'r fath, adlewyrchir hynny ym manyleb person y swydd. Ymhellach, lle caiff yr holl feini prawf hanfodol eu bodloni, gallai fod gan ymgeisydd sydd â sgiliau Cymraeg fantais dros rywun heb y sgiliau hynny.

4. Mae YMRWYMIAD i Gymru, yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ofynnol ar gyfer y rôl.

Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol i gyflawni'r gwaith. Mae ffordd amgen o sicrhau bod elfennau iaith Gymraeg y rôl yn cael eu cefnogi. Bydd ymgeiswyr yn ymrwymo i ddysgu Cymraeg lefel cwrteisi o fewn blwyddyn gyntaf eu penodiad, yn ymrwymo i wneud addewid Gymraeg yn flynyddol o ran dysgu'r iaith, ac yn ymrwymo i gymryd rhan mewn dysgu pellach yn ôl eu galluoedd.



Comisiynydd
Plant **Cymru**

Children's
Commissioner
for **Wales**